Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# ADDYSG A HYFFORDDIANT ÔL-ORFODOL (AHO)

# EGWYDDORION AR GYFER NEWID

## CEFNOGI GWELEDIGAETH STRATEGOL AHO

# PAM MAE ANGEN NEWID

**CYFLWYNIAD**

Mae'r ddogfen hon yn darparu'r cyd-destun ar gyfer y newid rydym yn ei geisio a'r egwyddorion ar gyfer newid sy'n llywio'r gwaith o wireddu ein Gweledigaeth Strategol AHO.

Mae chweched dosbarth ysgolion, colegau, prifysgolion, darparwyr hyfforddiant a darparwyr dysgu oedolion yn hanfodol i ymateb i'r heriau y bydd Cymru'n eu hwynebu yn y dyfodol:

- Adfer o'r pandemig Covid-19
- Perthynas newydd â'r Undeb Ewropeaidd
- Newidiadau technolegol, amgylcheddol, diwylliannol a demograffig dramatig tymor hwy

Fel llywodraeth, rydym wedi cydnabod y gallwn weithio'n well ar draws ein heconomi a'n cymdeithas i ymateb i'r heriau hyn. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ailystyried sut y gall ein sector AHO wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol drwy feddwl yn fwy hirdymor, datblygu polisi integredig, gwella'r cydweithredu rhwng darparwyr, a chynnwys defnyddwyr a dinasyddion yn well.

Nododd Adolygiad Hazelkorn heriau penodol i'r sector AHO gan gynnwys cystadleuaeth gynyddol yn y DU ac yn rhyngwladol, diffyg cydweithredu a dyblygu o ran rolau, diffyg llwybrau dysgu cydlynol a chyfleoedd addysgol, a chyfleoedd cyflogaeth annigonol.

**Mewn llawer o achosion mae'r heriau a nodwyd gan Hazelkorn yn parhau ac wedi'u dwysau gan newid cymdeithasol cyflym ac argyfyngau mwy uniongyrchol, yn benodol:**

01 Brexit a'r DU mewn byd sy'n newid

02 Newid hinsawdd a COVID-19

03 Poblogaeth sy'n heneiddio

04 Trawsnewid digidol ac awtomeiddio ein heconomi

05 Anghydraddoldeb economaidd a chymdeithasol

Mae'r ddogfen hon yn nodi pa ddiwygiadau y dylai ein sector AHO geisio eu cyflawni wrth fynd i'r afael â heriau a nodwyd uchod, o fewn y sector ac yn y gymdeithas yn gyffredinol.

# YMATEB I HERIAU'R DYFODOL

### Brexit - cynrychioli Cymru yn y DU a'r byd ehangach

Mae cyd-destun sy'n newid yn y DU ac yn fyd-eang yn gofyn am syniadau newydd ac agwedd newydd at le ein sector AHO yn y DU a'r byd ehangach.

Rhaid i ni gynnal a datblygu cysylltiadau addysg ac ymchwil ein darparwyr AHO y tu hwnt i Gymru a'r DU.

Byddwn yn parhau i gefnogi ein sector AHO i ddatblygu cydnerthedd a pharodrwydd drwy gydol cyfnod pontio'r UE a thu hwnt.

Bydd cryfhau a dyfnhau cysylltiadau addysg rhyngwladol, gyda'r UE a thu hwnt, o fudd i unigolion, darparwyr, cymunedau a diwydiant.

Yn ogystal ag edrych tuag allan, rhaid inni hefyd edrych ar gysylltiadau ein sector AHO â'u cymunedau lleol.

Er ei bod yn hollbwysig i ddarparwyr AHO fod â'u golygon ar y byd ehangach, yn y lle cyntaf mae angen iddynt fod yn flaengar yn eu hardaloedd eu hunain ac ennyn diddordeb y bobl sydd yn byw yno drwy ymgysylltu dinesig cryf a bod yn hanfodol i'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu.

### Hinsawdd a COVID-19 – mynd i'r afael â heriau ein hamser

Bydd ein sector AHO yn hanfodol i oresgyn yr argyfwng hinsawdd a'r argyfwng COVID-19 sy'n ein hwynebu ar hyn o bryd. Rhaid i ni ailadeiladu ar ôl COVID-19 gydag economi wyrddach, a bydd ein sector AHO yn rhan annatod o'r gwaith o baratoi pobl ar gyfer swyddi newydd sy'n defnyddio technolegau newydd arloesol.

Bydd y sector yn parhau i ddarparu ymchwil ac arloesi o'r radd flaenaf ym maes iechyd, ynni glân, trawsnewid digidol, gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau a fydd yn helpu'r gymdeithas yng Nghymru i ateb yr heriau hyn.

Er mwyn cyflawni'r weledigaeth a nodir yn y ddogfen hon, bydd angen i ni gynnal ein sector AHO drwy'r heriau uniongyrchol a gyflwynir gan COVID-19.

Byddwn yn cymryd camau i liniaru'r effaith ar ddysgu o ganlyniad i'r pandemig ac yn rhoi'r cyfle gorau i bawb gael a chadw swydd o ansawdd uchel sy'n rhoi boddhad ac sydd â rhagolygon hirdymor.

Mae angen i ni roi cyfleoedd i bobl ddatblygu eu sgiliau a chaffael rhai newydd, a hefyd adeiladu ar y defnydd cynyddol o ddysgu a gweithio digidol.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

[redacted]

# YMATEB I HERIAU'R DYFODOL

## Poblogaeth sy'n heneiddio – tuag at ddysgu gydol oes ar gyfer sgiliau a lles

Wrth i'r economi a'r farchnad lafur barhau i newid ac wrth i boblogaeth Cymru  fyw'n hirach, ni fu dysgu gydol oes erioed mor bwysig. Rhaid i'r system AHO alluogi pobl o bob oed i ddysgu ac ailymuno â dysgu ar bob lefel sgiliau, gan alluogi gwelliant cyson a dysgu annibynnol.

Drwy ein diwygiadau addysg, a'r cwricwlwm newydd yn benodol, rydym wedi amlinellu ein dyheadau ar gyfer dysgwyr rhwng 3 ac 16 oed yn y dyfodol, sef eu bod yn hyderus, uchelgeisiol, galluog a mentrus. Rydym eisiau sicrhau bod dysgwyr yn symud ymlaen i gyflawni eu potensial y tu hwnt i addysg orfodol. Rhaid i'r sector AHO ddarparu cyfleoedd i adeiladu ar y sylfaen hon.

Mae'n hanfodol bod gan bobl y sgiliau a'r wybodaeth drosglwyddadwy i ffynnu mewn marchnad lafur sy'n newid drwy gydol eu bywydau. Fodd bynnag, mae manteision dysgu gydol oes yn fwy na budd economaidd yn unig. Mae addysg a hyfforddiant yn datblygu unigolion gwydn, uchelgeisiol a bodlon a dinasyddion sy'n gallu cyfrannu'n weithgar at eu cymuned leol a'r gymdeithas ehangach.

Mae ymgymryd yn llwyddiannus â dysgu yn cael ei dderbyn yn gyffredinol fel ffactor arwyddocaol sy'n dylanwadu ar ganlyniadau bywyd, gan gynnwys canlyniadau iechyd, statws economaidd–gymdeithasol a disgwyliad oes.

Dylid rhoi cyfleoedd i ddysgwyr o bob oed ddatblygu eu galluoedd a'u cymwyseddau drwy ystod eang o lwybrau dysgu dwyieithog ar bob lefel o ddysgu, boed yn llawn-amser neu'n rhan-amser, ac wedi'u lleoli yn yr ystafell ddosbarth, ar-lein neu yn y gweithle. Dylid annog unigolion i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu drwy gydol eu hoes. Mae angen i ni alluogi dysgwyr i drosglwyddo'n fwy esmwyth rhwng llwybrau galwedigaethol a llwybrau nad ydynt yn alwedigaethol.

Rhaid inni ddarparu cyngor cadarn wedi'i amseru'n dda i gefnogi dewisiadau dysgwyr gan adlewyrchu eu huchelgeisiau eu hunain yn ogystal ag anghenion economaidd a chymdeithasol Cymru.

## Trawsnewid digidol ac awtomeiddio

Mae angen i ni integreiddio technoleg ddigidol yn ddi-dor i ddarpariaeth addysgol ac arloesi er mwyn canfod dulliau cynhwysol, hygyrch a dwyieithog o wella profiad y dysgwr drwy dechnoleg, gan adeiladu ar fframwaith Digidol 2030. Mae angen i ddarparwyr addysg a hyfforddiant roi i ddysgwyr a staff y sgiliau digidol lefel uwch, y galluoedd a'r hyder y bydd eu hangen arnynt i lwyddo yn eu bywyd bob dydd ac wrth weithio mewn byd digidol. Rhaid i'n hecosystem ymchwil ac arloesi fod ar flaen y gad o ran datblygiadau newydd mewn technoleg a thrawsnewid digidol.

Rhaid i system addysg ôl-orfodol wirioneddol effeithiol hefyd gael ei hategu gan systemau digidol, data a thechnoleg sy'n ddiogel, yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaethol ac yn defnyddio technoleg newydd.

## Anghydraddoldeb economaidd - galluogi cyfiawnder economaidd a chymdeithasol

Mae Cymru'n parhau i wynebu heriau economi anghyfartal, yr angen am well cyfleoedd economaidd y tu allan i ardaloedd trefol sy'n tyfu, a diffyg sgiliau mewn cymunedau a niweidiwyd gan ddad-ddiwydiannu. Mae sector AHO mwy cyfartal yn hanfodol i chwalu'r anghydraddoldebau a welwn mewn cymdeithas: yn enwedig anghydraddoldebau o ran dosbarth, daearyddiaeth, hil, rhyw ac anabledd.

Mae angen gweithredu systematig i chwalu'r anghydraddoldebau mewn perthynas â mynediad, cyrhaeddiad a chanlyniadau cyflogaeth yr ydym yn dal i'w gweld ar draws y byd addysg. Rhaid inni weithio tuag at barch cydradd gwirioneddol ar draws pob math o addysg a hyfforddiant ôl-orfodol, a datgymalu'n raddol yr hierarchaeth draddodiadol rhwng dysgwyr, darparwyr a sectorau.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## CYMRU SY'N FWY CYFARTAL

**Dysgu Gydol Oes**

- Byddwn yn cyflwyno hawl i ddysgu gydol oes drwy: ehangu mynediad at sgiliau a gwybodaeth drwy gydol bywydau a gyrfaoedd, a chynyddu cyfran y dysgwyr a myfyrwyr AHO sy'n dychwelyd i addysg yn ddiweddarach mewn bywyd.
- Bydd unigolion yn manteisio ar ddysgu ar wahanol adegau yn eu bywydau a chynigir ystod eang o gyfleoedd dysgu iddynt sy'n cyd-fynd â'u hymrwymiadau gwaith a theulu.
- Byddwn yn parhau i arloesi o ran polisi ariannu i ddileu rhwystrau i addysg ôl-orfodol.

**Amrywiol a hyblyg**

- Bydd y sector AHO yn ehangu'r rhaglenni a'r cyrsiau a gynigir i gefnogi dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau a'u galluoedd er mwyn gwireddu eu dyheadau a sicrhau gwaith ystyrlon a theg.
- Byddwn yn ehangu'r opsiynau dysgu rhan-amser, ôl-raddedig a seiliedig ar waith a'r dewis o gyrsiau byr achredegig er mwyn diwallu anghenion cynyddol amrywiol dysgwyr gydol oes sy'n dymuno datblygu sgiliau ac ennill cymwysterau yn raddol, lle bo'n briodol, drwy gydol eu bywyd. Bydd hyn yn cynnwys ehangu prentisiaethau, llwybrau amgen a hyblyg i broffesiynau allweddol yn y gwasanaethau cyhoeddus, a darpariaeth tymor byr sy'n datblygu sgiliau busnes a digidol hanfodol.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a chryfhau'r rhaglen brentisiaethau yng Nghymru fel ei bod yn diwallu anghenion yr economi, cyflogwyr a phrentisiaid yn well.
- Byddwn yn annog darpariaeth ddysgu hyblyg i gefnogi pobl sydd mewn gwaith i uwchsgilio ac ailsgilio, ac i gyflogwyr allu datblygu eu gweithlu.

**Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad**

- Byddwn yn cydweithio ag ysgolion i ddarparu'r wybodaeth, cymorth ac arweiniad sydd eu hangen ar ddysgwyr i symud yn ddidrafferth o addysg orfodol i addysg ôl-orfodol.
- Byddwn yn galluogi dysgwyr i adeiladu ar yr wybodaeth a'r sgiliau y maent wedi'u caffael drwy'r cwricwlwm ysgol wrth iddynt symud ymlaen drwy'r coleg, y brifysgol a hyfforddiant.
- Byddwn yn gweithio gyda darparwyr a phartneriaid allweddol, gan gynnwys Gyrfa Cymru, i sicrhau bod cyngor ac arweiniad annibynnol o ansawdd uchel ar gael i bawb ar addysg a llwybrau gyrfa.
- Lle bynnag y bo'n bosibl, byddwn yn symleiddio, yn egluro ac yn gwneud yn fwy hyblyg yr opsiynau o ran llwybrau i gymwysterau sydd ar gael i ddysgwyr er mwyn iddynt allu adeiladu'n barhaus ar eu setiau sgiliau a'u haddasu mewn economi fwyfwy amrywiol sy'n newid.

**Mynediad teg a chynnydd a chyrhaeddiad cyfartal**

- Bydd ein system AHO yn sicrhau bod pawb sydd â'r potensial i elwa ar ddysgu a datblygu yn cael cyfle i ymgymryd ag ef.
- Byddwn yn grymuso'r Comisiwn newydd i fod yn rhagweithiol o ran sicrhau mynediad tecach i addysg a hyfforddiant ôl-orfodol.
- Byddwn yn monitro'n ofalus ac yn ceisio dileu anghydraddoldebau hil, rhyw, dosbarth, oedran ac anabledd mewn perthynas â mynediad, cynnydd a chyrhaeddiad yn y sector addysg ôl-orfodol.
- Bydd ein darparwyr yn arwain y ffordd o ran rhannu arferion effeithiol wrth gefnogi dysgwyr o grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol neu sydd ag anghenion dysgu ychwanegol i fanteisio ar addysg ôl-orfodol a llwyddo, gan gynnwys drwy arferion addysgeg ac arweinyddiaeth.
- Bydd ein sector AHO yn paratoi pobl nid yn unig ar gyfer gwaith, ond ar gyfer bywyd iach a chyflawn.
- Byddwn yn gwella, yn cefnogi ac yn annog lles ac iechyd meddwl dysgwyr a staff, gan wneud Cymru'n lle blaenllaw i weithio ac astudio.

## CYMRU LEWYRCHUS

**Cydweithio**

- Bydd ein darparwyr yn cydweithio â'i gilydd a chyda cyflogwyr i gyflawni eu cenhadaeth er mwyn ymateb i'r galw rhanbarthol am gyflogaeth a sgiliau. Bydd hyn yn sicrhau mwy o arbedion maint, yn cynyddu'r dewis i ddysgwyr ac yn hwyluso llwybrau hyblyg i ddysgwyr.
- Byddwn yn adeiladu ar ddull rhanbarthol o gydweithredu drwy'r Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, y Cytundebau Dinas a Thwf, a'r Fframweithiau Economaidd Rhanbarthol er mwyn sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i wella gallu a hyblygrwydd y gweithlu presennol, a thyfu galwedigaethau a sectorau penodol ar gyfer y dyfodol.
- Byddwn yn annog cydweithio yn y sector i gymryd rhan mewn cyfleoedd ledled y DU fel Strategaeth Ddiwydiannol y DU a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin er mwyn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig er budd dysgwyr a chyflogwyr.
- Bydd y Comisiwn newydd yn adolygu prosesau cyllido, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cyflawni'r cynigion cwricwlwm ardal leol ar gyfer pobl ifanc 16-19 oed, er mwyn cefnogi cydweithio a gweithio mewn partneriaeth a lleihau cystadleuaeth wastraffus.

**Dysgu gwahaniaethol**

- Bydd ein darparwyr yn datblygu eu gwahanol gryfderau, fel eu bod rhyngddynt yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd dysgu a phwyntiau mynediad sy'n briodol i gyd-destunau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.
- Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod y gwaith o reoli perfformiad a monitro'r sector yn cydnabod cyfraniadau gwahanol yr ystod amrywiol o ddarparwyr, a bod rheoleiddio yn ysgogi ymddygiadau a pherthnasau cadarnhaol sy'n cefnogi dysgwyr.
- Bydd y Comisiwn yn cefnogi cenadaethau gwahanol ac arbenigo, gan gydnabod cryfderau gwahanol ond nid annibynnol ar ei gilydd mewn ymchwil, addysg a dysgu gydol oes ar draws yr holl sector

**Ymchwil**

- Byddwn yn cynyddu maint, ehangder a dyfnder ein sylfaen ymchwil ac arloesi drwy annog mwy o ymgysylltu rhwng ein prifysgolion, colegau, y sectorau cyhoeddus a phreifat a'r trydydd sector.
- Byddwn yn sicrhau bod ein system ymchwil ac arloesi'n parhau i fod yn gystadleuol drwy gymysgedd o ymchwil a ysgogir gan chwilfrydedd ac ymchwil ac arloesi a ysgogir gan her.
- Byddwn yn creu amgylchedd ymchwil, arloesi a throsglwyddo gwybodaeth mwy dynamig sy'n ymateb i anghenion Cymru.
- Byddwn yn nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithredu a phartneriaeth er mwyn sicrhau ffynonellau newydd

o gyllid yn y DU ac yn rhyngwladol ar gyfer ymchwil yng Nghymru.

- Byddwn yn nodi cyfleoedd i ddatblygu'r capasiti ymchwil addysg i wella ein sector addysg ymhellach a phrofiad dysgwyr yn ein hysgolion a'n sectorau AHO.

**Arloesi a menter**

- Byddwn yn parhau i weithio gyda darparwyr AHO, cwmnïau preifat a busnesau cymdeithasol i wella'r cymorth i gwmnïau newydd yng Nghymru gan ganolfannau arloesi a deorfeydd busnes.
- Byddwn yn adeiladu ar y cryfderau presennol o ran arloesi ac yn datblygu meysydd newydd o arbenigedd a rhagoriaeth.
- Byddwn yn parhau i ddatblygu diwylliant entrepreneuraidd o fewn darparwyr AHO ac yn darparu cyfleoedd i fyfyrwyr, staff a chymunedau cynhaliol.

**Cyflogadwyedd**

- Byddwn yn gweithio gyda'r sector addysg orfodol i alluogi unigolion i fod yn greadigol, uchelgeisiol a hyderus wrth ymuno â'r farchnad waith.
- Byddwn yn sicrhau bod cymwysterau a chyfleoedd sgiliau lefel uchel, lle bo'n briodol, ar gael i bawb, a'u bod yn gludadwy, yn adnabyddadwy ac yn helpu pobl i symud ar draws economi sy'n newid.
- Byddwn yn parhau i greu cyfleoedd i ddysgwyr drwy gysylltiadau â busnesau er mwyn gwneud Cymru'n economi sy'n ffynnu lle mae dysgwyr eisiau byw a gweithio a chael eu hysbrydoli.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

**Addysg cyfrwng Cymraeg ac iaith Gymraeg**

- Mae'r sector AHO yn hanfodol i gyflawni gweledigaeth Cymraeg 2050 o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn cynyddu'r addysg ôl-orfodol sydd ar gael drwy gyfrwng Cymraeg er mwyn ehangu'r dewis i ddysgwyr barhau i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg o'r ysgol i gyflogaeth.
- Byddwn yn nodi rolau o fewn yr economi lle ceir prinder unigolion sy'n gallu ymgymryd â'u rôl yn ddwyieithog. Byddwn yn cynyddu'r ddarpariaeth dechnegol a galwedigaethol sydd ar gael yn Gymraeg, ac yn cefnogi dysgwyr i ymgymryd yn hyderus â'r cyfleoedd hyn.
- Byddwn yn hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel cyfrwng academaidd gan gynnwys cefnogi gwaith ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Byddwn yn ehangu'r cyfleoedd i bob dysgwr AHO, beth bynnag fo'i iaith gyntaf, ddatblygu ac ehangu eu dealltwriaeth a'u hymgysylltiad â'r Gymraeg a bywyd diwylliannol Cymru.

**Y celfyddydau a diwylliant**

- Bydd ein sector AHO yn rhan annatod o fywyd diwylliannol a chelfyddydol yng Nghymru, gan gydweithio â sefydliadau cenedlaethol fel y Llyfrgell Genedlaethol, yr Amgueddfa Genedlaethol, Cadw, Cyngor Celfyddydau Cymru, a mwy.
- Byddwn yn parhau i ariannu a chefnogi ymchwil ac ymgysylltu â'r celfyddydau a'r dyniaethau, i ehangu'r gwaith o ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y sectorau celfyddydau a diwydiannau creadigol a chefnogi unigolion i ymwneud â'r celfyddydau a diwylliant drwy gydol eu bywyd.

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

## CYMRU GYDNERTH A CHYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

**Profiad myfyrwyr a dysgwyr**

- Bydd y Comisiwn newydd yn rhoi buddiannau dysgwyr wrth wraidd popeth y mae'n ei wneud ac yn sicrhau cysondeb â'r dysgu a arweinir gan ddibenion yn y Cwricwlwm cyn-16 i Gymru. Bydd y Comisiwn yn sicrhau bod darparwyr AHO Cymru yn arwain y ffordd yn y DU o ran ymgysylltu â dysgwyr a myfyrwyr a'u cynrychioli.
- Wrth ddatblygu ein huchelgeisiau ar gyfer y sector AHO byddwn yn ymwybodol o ofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) ac yn canolbwyntio ar gamau ystyrlon er budd plant a phobl ifanc.
- Bydd ymarferwyr, a dysgwyr yn elwa ar brofiadau addysgol o ansawdd uchel sy'n cael ei lywio gan yr ymchwil ddiweddaraf, mewn amgylcheddau dysgu briodol ac yn manteisio ar dechnoleg newydd a pherthnasol.
- Gan adeiladu ar ein diwygiadau i'r cwricwlwm ysgol, byddwn yn mynd ati ar y cyd i ddatblygu cwricwlwm newydd ar gyfer dysgwyr 16-19 oed sy'n cyd-fynd â'r Cwricwlwm i Gymru. Byddwn yn datblygu dulliau newydd ar gyfer asesu a mynegi sut mae dysgu ôl-orfodol yn rhoi i ddysgwyr yr wybodaeth, sgiliau, pwrpas a chymwyseddau i lwyddo mewn bywyd a gwaith.
- Bydd ein gweithwyr addysg proffesiynol yn cydweithio, yn agored i syniadau a dysgu newydd, ac yn ceisio codi safonau i bob dysgwr.
- Byddwn yn cydweithio â'r sector ôl-16 a Chyngor y Gweithlu Addysg i ddatblygu Fframwaith Datblygiad Proffesiynol a fydd yn helpu staff o fewn y sector i ehangu eu sgiliau a chamu ymlaen yn eu gyrfa.
- Byddwn yn cyfoethogi profiadau dysgu unigolion ag anghenion dysgu ychwanegol ac yn diwallu eu hanghenion a'u disgwyliadau.

**Goruchwylio a monitro perfformiad**

- Byddwn yn sefydlu Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil effeithiol, cadarn a chydweithredol, a fydd yn gyfrifol am oruchwylio'r sector AHO, a fydd yn herio darparwyr yn barhaus i wella a datblygu.
- Byddwn yn diwygio'r trefniadau cyllid a monitro perfformiad yn seiliedig ar gytundebau tymor hwy rhwng y Comisiwn a darparwyr, gan sicrhau bod y system AHO yn cyflawni yn erbyn amcanion perfformiad clir.
- Bydd y Comisiwn yn creu dull cyson o asesu a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu ar draws y sector AHO yn seiliedig ar egwyddorion cyffredin.
- Bydd y Comisiwn, gan weithio'n agos gydag Estyn a chorff ansawdd dynodedig ar gyfer addysg uwch, yn sicrhau system hunan wella ar gyfer AHO ar draws y sectorau presennol drwy oruchwylio darparwyr mewn modd deallus, effeithiol a chefnogol a chanolbwyntio ar wella ansawdd.

**Darparwyr cryf a chynaliadwy**

- Byddwn yn ceisio manteisio ar gyfleoedd i gydweithredu er mwyn gwella effeithlonrwydd a gwydnwch economaidd ein darparwyr AHO, gan greu'r gwerth mwyaf i ddysgwyr drwy ddyrannu adnoddau yn y ffordd orau bosibl.
- Byddwn yn sicrhau'r safonau uchaf o lywodraethiant a sicrwydd yn ein darparwyr AHO, ac yn cynyddu hyder y cyhoedd a rhanddeiliaid ynddynt.



## CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS A CHYMRU IACHACH

**Cenhadaeth ddinesig a lle sy'n arwain**

- Bydd ein darparwyr AHO yn arweinwyr dinesig cymdeithasol gyfrifol sy'n sicrhau arloesi cymdeithasol ac ymgysylltu dinesig ar lefel genedlaethol a chymunedol ochr yn ochr â phartneriaid dinesig yn y meysydd iechyd, addysg, llywodraeth leol a gwasanaethau cyhoeddus eraill.
- Bydd ein sector AHO yn defnyddio eu harbenigedd, profiad, adnoddau a chyfleusterau i ddatblygu arweinwyr y dyfodol ar draws y gymdeithas ddinesig a chefnogi sefydliadau cymunedol ac addysgol.
- Bydd ein sector AHO yn arwain y ffordd yn ein hymdrechion i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd drwy ddarparu'r sgiliau sydd eu hangen arnom ar gyfer datblygu cynaliadwy a datgarboneiddio'r economi.

**Rhyngwladol**

- Byddwn yn sicrhau ein bod yn cryfhau ein cysylltiadau addysg a'n partneriaethau sefydliadol rhyngwladol ymhellach er budd myfyrwyr, ymchwilwyr, darparwyr, rhanbarthau economaidd a'r genedl gyfan.
- Byddwn yn gweithio ar draws y sector AHO llawn i ehangu cydberthnasau addysg ac ymchwil dwyochrog, marchnata Cymru fel cyrchfan o ddewis i fyfyrwyr, a darparu cyfleoedd rhyngwladol o safon i fyfyrwyr Cymru.
- Byddwn yn darparu cyfleoedd rhyngwladol o ansawdd uchel i fyfyrwyr a dysgwyr Cymru drwy ehangu'r cynllun symudedd tramor presennol i gynnwys myfyrwyr a phrentisiaid mewn addysg bellach.
- Byddwn yn parhau i gysoni Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru â fframweithiau cymwysterau eraill y DU a'r Fframwaith Cymwysterau Ewropeaidd er mwyn cefnogi dilyniant a symudedd i Gymru ac o Gymru.

**Gwaith partneriaeth â'r sector cyhoeddus**

- Bydd y Comisiwn newydd yn cydweithio â'r ystod ehangaf bosibl o randdeiliaid o'r sector cyhoeddus, y sector preifat, y trydydd sector, mentrau cymdeithasol a'r gymdeithas ddinesig.
- Byddwn yn parhau i adeiladu ar y partneriaethau cryf rhwng prifysgolion, colegau, darparwyr annibynnol ac ysgolion ac yn sefydlu partneriaethau newydd hefyd er mwyn gwella arweinyddiaeth a llywodraethiant, meithrin gallu mewn disgyblaethau allweddol, a chynnig cyfleoedd dilyniant arloesol i ddisgyblion.
- Bydd ein sector AHO yn parhau i ddarparu'r sgiliau, y datblygiad a'r cymorth sydd eu hangen ar gyfer GIG ffyniannus yng Nghymru.

**Partneriaeth gymdeithasol**

- Byddwn yn adeiladu ar gynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno fframwaith deddfwriaethol ar gyfer cryfhau trefniadau partneriaeth gymdeithasol a sicrhau Cymru fwy cyfartal drwy integreiddio egwyddorion partneriaeth gymdeithasol yn nhrefniadaeth ein sector a'n sefydliadau AHO.
- Bydd ein darparwyr AHO yn arwain y ffordd o ran cyflogaeth a chaffael moesegol a chymdeithasol gyfrifol.




PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

ISBN Digidol 978-1-80082-524-6

OGL © Hawlfraint y Goron 2020